MYNACHLOG-DDU









LLANGOLMAN & LLANDILO

CYNLLUN GWEITHREDU DIWYGIEDIG

PLANED's 'Shaping Our Futures' Project is part financed by the
National Assembly for Wales through the Community Facilities & Activities programme

Rhan-ariennir prosiect 'Dylunio ein Dyfodol' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
drwy gyfrwng Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

CYNLLUN GWEITHREDU DIWYGIEDIG MYNACHLOG-DDU, LLANGOLMAN A LLANDEILO

Paratowyd gan
GYMDEITHAS CWM CERWYN
FFORWM CYMUNEDOL MYNACHLOG-DDU,
LLANGOLMAN A LLANDEILO

Mewn Cydweithrediad â

Cynnwys

Cyflwyniad a'r Ffordd Ymlaen 2

Cefndir i'r Cynllun Gweithredu 3

Adolygu'r Cynllun Gweithredu 4

Hanes y Gymuned 5

Cynllun Gweithredu:

1. *Adnoddau Cymunedol* *8*
2. *Etifeddiaeth a Diwylliant* *10*
3. *Economi Lleol* *11*
4. *Amgylchedd* *13*
5. *Cludiant a Phriffyrdd* *14*
6. *Tai* *15*

Cyfarfu cymunedau Mynachlog-ddu, Llangolman a Llandeilo ar 7fed Mehefin 2007 adeg gweithdy cymunedol i adolygu'r Cynllun Gweithredu a dathlu llwyddiannau'r gorffennol. Ychwanegwyd nifer o gynigion newydd i'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys rhestr o'r llwyddiannau, a nodwyd cynnydd prosiectau sydd eisoes yn bodoli. Dosbarthwyd yr adolygiadau o gwmpas y cymunedau a chytunwyd y Cynllun Gweithredu Diwygiedig ar 22ain Hydref 2007

CYFLWYNIAD A'R FFORDD YMLAEN

Bwriad y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Mynachlog-ddu, Llangolman a Llandeilo yw amlinellu'r materion a'r syniadau a nodwyd gan breswylwyr, ac a fyddent o'u gweithredu dros y blynyddoedd nesaf yn gwella ansawdd bywyd o fewn y gymuned, trwy hyrwyddo golwg yr ardal, gwella'r economi, gan gynnwys twristiaeth ac amaethyddiaeth, a chryfhau ac arallgyfeirio ei hatyniadau ar gyfer yr holl breswylwyr ac ymwelwyr.

Trwy baratoi'r Cynllun Gweithredu hwn sy'n cael ei arwain gan y gymuned, ac sy'n pwysleisio'r manteision y gellir eu sicrhau o fabwysiadu agwedd integredig, gobeithir denu cefnogaeth a chyllid o'r sector cyhoeddus a phreifat i gyflawni'r amrywiaeth o amcanion sy'n cael eu disgrifio yn Y Cynllun.

Mae'r sawl sy'n cyfrannu at Y Cynllun Gweithredu yn sylweddoli mai'r ffordd orau o sicrhau cynnydd yw trwy drafodaeth a phartneriaethau gan fod nifer o'r cynigion yn ymwneud â gwahanol berchentyaeth tir ac eiddo, diddordebau amrywiol a ffynonellau gwahanol o gyllido. Er bod rhai o'r cynigion yn gymharol ddinod, maen nhw'n debygol o fod o fantais sylweddol i grwpiau arwyddocaol o fewn y boblogaeth. Mewn achosion eraill mae'r newidiadau sy'n cael eu hargymell ar raddfa fwy ac o bosib yn debygol o gael effaith sylweddol ar ystod eang o ddiddordebau.

Y gobaith yw y bydd y prosiectau sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn yn cael eu gwireddu mor gyflym ag sy'n ymarferol gyda'r partneriaid amrywiol yn cydweithio i ddylunio, cyllido a chyflawni'r cynlluniau. Mae'r Cynllun Gweithredu yn gwahodd darpar bartneriaid i wireddu'r amrywiol gynigion.

Clustnodwyd swm sylweddol o nawdd ar gyfer yr ardal o dan gynllun UE Amcan 1 a gobeithiwyd ei ddefnyddio i ariannu nifer o'r projectau yn y Cynllun. Bwriadwyd fod Mynachlog-ddu, Llangolman a Llandeilo ynghyd â'r cymunedau eraill yn Ward Maenclochog, yn ymuno i wneud cais am Swyddog Cymunedol o dan nawdd Amcan 1 (Blaenoriaeth 3), i weithio yn yr ardal i helpu cyflawni'r cynigion yn y Cynlluniau Gweithredu. Penodwyd y Swyddog yn 2003 a gweithiodd o fewn Ward Maenclochog tan ddiwedd mis Mehefin 2007. Ffurfiwyd Cymdeithas Cleddau Ddu fel y Grŵp Ardal ar gyfer Ward Maenclochog i gydweithio a gwireddu'r cynigion sy'n cynnwys mwy nag un gymuned ac i brosesu'r ceisiadau am nawdd Amcan 1, Blaenoriaeth 3.

Adolygwyd a diweddarwyd y cynllun hwn gan gymunedau Mynachlog-ddu, Llangolman a Llandeilo ym mis Mehefin 2007.

CEFNDIR Y CYNLLUN GWEITHREDU

Ym mis Rhagfyr 2002 gwahoddwyd PLANED (Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu) gan Gyngor Cymuned Mynachlog-ddu i gydweithio er mwyn sefydlu Fforwm Cymunedol o grwpiau gwirfoddol a chymdeithasau ac i ffurfio Cynllun Gweithredu Cymunedol. Roedd y gwahoddiad yn pwysleisio cyfranogiad pob oed a chynrychiolwyr o bob haen o'r gymuned. Roedd gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni gan y gymuned gan gynnwys ymarferiad *Cynllunio ein Hyfory* ym mis Medi 2001.

Roedd y gymuned eisoes wedi dechrau gweithio gyda PLANED trwy gyfrannu i Grŵp Menter Ardal. Ym mis Ebrill 2002 trefnwyd cyfarfod yn Ardal Gogledd Ddwyrain Canol Sir Benfro pan fu'r cyfranogwyr yn nodi cryfderau, gwendidau a chyfleoedd ar gyfer yr ardal leol. O ganlyniad i hyn cynhaliwyd ymarferiad *Atal y Golled* fel rhan o raglen *Leader + Creu Diwylliant o Entrepreneuriaeth.* Fe'i cynhaliwyd dros ddwy noson ym mis Gorffennaf 2002, y gweithdy cyntaf yn Llys-y-frân a'r ail ym Mynachlog-ddu. Bwriad y rhaglen yw cryfhau economi ardaloedd lleol trwy dynnu at ei gilydd pobloedd o gymunedau gwledig i glustnodi cyfleoedd menter newydd ar sail adnoddau lleol - dynol, naturiol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Cynhaliwyd cyfarfod pellach yng Ngwesty Nant-y-ffin, Llandysilio.

Ar ddechrau 2004 ffurfiwyd Cymdeithas Cwm Cerwyn, fforwm cymunedol sy'n agored i holl aelodau'r gymuned, er mwyn datblygu'r Cynllun Gweithredu a chynorthwyo i weithredu'r prosiectau a nodwyd.

Erbyn 2007 gwnaethpwyd cynnydd sylweddol gan y cymunedau. Felly, penderfynwyd ym mis Ebrill 2007 y byddai gweithdy ar gyfer cymunedau Mynachlog-ddu, Llangolman a Llandeilo yn cael ei drefnu i ddiweddaru ac ychwanegu cyfleoedd newydd at Gynllun Gweithredu 2003. Byddai hyn yn cyfrannu at gynaladwyedd hirdymor y cymunedau, edrych ar ffyrdd o weithredu prosiectau mewn modd a fyddai yn eu cynorthwyo i ddod yn fwy hunangynhaliol, iach a mwy ymwybodol o ynni. Byddai'r gweithdy hefyd yn atgyfnerthu dealltwriaeth a brwdfrydedd y gymuned o ran byw'n gynaliadwy.

Danfonwyd gwahoddiadau i holl gartrefi o fewn y tair cymuned a dosbarthwyd posteri i annog cyfranogiad eang mewn digwyddiad o'r fath.

ADOLYGU CYNLLUN GWEITHREDU MYNACHLOG-DDU, LLANGOLMAN A LLANDEILO

Rhestrir isod y gweithgareddau a gyflawnwyd o fewn cymunedau Mynachlog-ddu, Llangolman a Llandeilo ers y Cynllun Gweithredu diwethaf:

- **Fforwm Cymunedol** – wedi'i sefydlu
- **Festri Bethel** – wedi'i ailwampio yn gyfan
- **Cwblhawyd Astudiaeth Hyrwyddo Pentref** – adroddiad Bronwen Thomas
- **Festri Capel Llandeilo –** drysau a ffenestri newydd
- **Neuadd Goffa Llangolman** – trosglwyddwyd nôl i'r tirfeddiannwr
- **Cylchlythyr cymunedol -** gwell hysbys ar gyfer cylchlythyr presennol yr eglwys
- **Gwyliau a digwyddiadau –** trefnu digwyddiadau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn
- **Rhoi sylw i bobl enwog dalentog sydd â chysylltiad â'r ardal**
- **Taflen hanesyddol –** cyhoeddwyd yn 2006
- **Cyfeirlyfr busnes –** cyhoeddwyd yn 2006
- **Gwyliau gwyrdd ac asiantwyr lleol** (Greenways Holidays)
- **Paneli dehongli –** codwyd yn 2007 ymhob cymuned
- **Map y gymuned –** wedi'i gynnwys yn y daflen treftadaeth ac ar y paneli dehongli
- **Ail-greu pwll Clun ym Mynachlog-ddu**
- **Enw stryd ar gyfer Llangolman**
- **Bws Cymunedol –** mae'r Ddraig Werdd y Preseli wedi ehangu'i gwasanaeth
- **Goleuadau stryd –** gwelliannau
- **Tro Penrallt Fach –** atalydd damweiniau
- **Terfynau cyflymder –** gweithredwyd terfyn cyflymder o 30mya ar bwys maes chwarae Mynachlog-ddu

HANES Y GYMUNED

Lleolir Mynachlog-ddu, Llangolman and Llandeilo tua 11 milltir i'r Gogledd o Arberth, ar ffiniau plwyf Maenclochog, ac yn rhan ddwyreiniol Sir Benfro ar ffiniau Sir Gaerfyrddin.

Byddai mwyafrif o blant y gymuned yn arfer cerdded i'r ysgol yn ddyddiol, gyda tua thri chwarter ohonyn nhw'n mynychu Ysgol Nant-y-cwm a'r gweddill Ysgol Mynachlog-ddu. Caewyd Ysgol Mynachlog-ddu yn 1995.

Y prif ddiddanwch wedi dyddiau ysgol a chyn y Ddeddf Addysg oedd y `*Penny Readings*` traddodiadol - roedd y mudiad yma yn rhoi cyfle i blant gyfarfod â phobl ddieithr ac i wneud ffrindiau wrth dderbyn gwersi darllen ychwanegol, ond roedd hefyd yn ffurf boblogaidd o adloniant.

Byddai Eisteddfodau lleol yn cael eu cynnal yn rheolaidd hefyd o fewn y gymuned, pan fyddai trigolion o bob oed yn cystadlu ar bob math o ganu, adrodd, barddoniaeth, arlunio a chystadlaethau drama.

Mae crefydd hefyd wedi bod yn ganolbwynt cryf o fewn y gymuned. Roedd Ysgolion Sul rheolaidd yn gyffredin ac unwaith eto byddai'r Penny Readings yn atyniad poblogaidd o ran y plant yn ystod yr Ysgol Sul yn ogystal â'r Ysgol Gân reolaidd (ymarfer canu emynau).

Arferai Cystadlaethau Aredig fod yn ddigwyddiad rheolaidd yng nghalendr y gymuned leol. Wrth ddefnyddio erydr daliadwy a thractorau o dras gwelid gwaith ardderchog gan gystadleuwyr o bob rhan o'r DU - fe fyddai llawer o'r offer a ddefnyddir mewn Gornestau Aredig modern i'w gweld mewn defnydd dros ddeugain mlynedd nôl. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai cystadleuwyr yn adfer tractor ac aradr a welodd flynyddoedd o segurdod i gyflwr gwych.

Mynachlog-ddu

Saif plwyf Mynachlog-ddu yng nghesail mynyddoedd y Preselau. Gyda'r mynyddoedd yn gefndir iddo mae'n un o lecynnau godidoca'r sir o ran golygfeydd. Ni fedrwn llai nac ymdeimlo â rhin y gorffennol wrth ymlwybro ar hyd hen lwybrau'r fro. Mae hanes yn fyw o'n cwmpas yma, a ffaith a chwedl wedi ymdoddi i'w gilydd. Mae meini hirion a chylchoedd cerrig Gors-fawr a Bedd Arthur nid nepell o Garn Bica, a charreg yr allor ar Garn Menyn yn tystio i wareiddiad a fu yma yn ystod yr Oes Efydd. Garn Menyn, wrth gwrs, yw ardal y garreg las. Credir taw o'r fan hon y cludwyd y

meini sy'n ffurfio rhan o Gôr y Cewri, Caersallog. Mae nifer o nodweddion yr ardal yn dwyn yr enw Arthur, fel Cerrig Marchogion Arthur, Cerrig Meibion Arthur a Choetan Arthur. Sonnir hefyd am Arthur a'i feibion yn hela'r Twrch Trwyth ger Moel Cwm Cerwyn yn chwedlau'r Mabinogi. Sgrifennwyd y rheini yn y drydedd ganrif ar ddeg, ond mae'r chwedlau hyn yn ymestyn ymhell yn ôl cyn hynny ar lafar.

O ble daeth yr enw Mynachlog-ddu? Efallai y bu mynachlog yma yn perthyn i'r Brodyr Duon nôl yn yr Oesoedd Canol. Sant Dogfael yw enw Eglwys y Plwyf a hwyrach y bu cysylltiad â Llandudoch (St Dogmaels) ar un adeg. Damcaniaeth arall yw bod y 'du' yn yr enw yn cyfeirio at nodwedd lom yr ardal neu'r mawn a geir ar y rhostir.

Ychydig o hanes y plwyf a'i drigolion sydd wedi goroesi hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ychydig a geir gan yr awdur a'r hanesydd George Owen, Henllys, yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn ei lyfr 'The Description of Pembrokeshire'. Ond os am wybod mwy am y plwyf ceisiwch ddarllen dau lyfr Saesneg gan E.T. Lewis, yr hanesydd lleol a fu yn ysgolfeistr ym Mynachlog-ddu. Teitlau'r ddau lyfr yw 'Mynachlog-ddu - A Guide to Antiquities' a 'Mynachlog-ddu - A Historical Survey of the Past Thousand Years'.

Un o gymeriadau enwocaf y plwyf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd Twm Carnabwth a arweiniodd fintai o drigolion lleol i chwalu'r tollborth yn yr Efail-wen yn 1839. Mae ymgyrch Merched Beca yn wybyddus i'r rhan fwyaf, yn enwedig i blant yr ysgolion lleol. Gwelir ei garreg fedd ym mynwent Capel Bethel.

Un o arwyr Cymru yn yr ugeinfed ganrif oedd yr athrylith o fardd a heddychwr, Waldo Williams. Bu'n byw ym Mynachlog-ddu pan oedd yn blentyn ysgol ac fe godwyd cofeb iddo ar gomin Rhos-fach. Mae ei unig gyfrol o farddoniaeth 'Dail Pren' yn un o emau'r iaith Gymraeg.

Un arall o feibion y plwyf a wnaeth cryn gymwynas i ddod â thafodiaith unigryw'r ardal i sylw'r darllenydd yn ei farddoniaeth ac ysgrifau oedd W.R. Evans. Codwyd cofeb iddo yntau yng Nglynsaethmaen.

Soniwyd eisoes am E.T. Lewis, ac un arall o'r plwyf a olrheiniodd tipyn o'i hanes yw Ben Owens a fu'n gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Ni fyddai crynodeb o hanes yr ardal yn gyflawn heb grybwyll enw R. Parri Roberts a fu'n weinidog yng Nghapel y Bedyddwyr, Bethel

am gyfnod maith. O dan ei arweiniad ef ac eraill yr amddiffynnwyd bro'r Preseli rhag cael ei meddiannu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 1946.

Un a fu'n ddiwyd iawn fel ysgolfeistres yn y plwyf ac a fu'n gweithio gydag ieuenctid y fro yn yr Aelwyd a'r Eisteddfodau oedd Tonwen Adams. Fe'i hurddwyd i'r Wisg Werdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol am ei chyfraniad dros y pethe yn yr ardal hon. Fe'i collwyd yn frawychus o sydyn mewn damwain ger Sgwâr Glandy yn 1990.

Bu'r diddordeb mewn barddoni yn eithaf cryf yn yr ardal. Un o'r beirdd gwlad hynny oedd Rachel Owen a arferai gyfarch mewn priodasau a gweithgareddau yn y plwyf. Cyhoeddwyd ganddi ddau lyfryn o benillion sef 'Caneuon Hen Lidiart 1 & 2'.

Mae'r grefft o ysgrifennu yn dal i ddiddori rhai yn yr ardal. Un sydd wedi ennill nifer o weithiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y blynyddoedd diweddar yw Wyn Owens. Mae hefyd yn arlunydd.

Ar un adeg roedd plwyf Mynachlog-ddu fwy neu lai yn hunangynhaliol gyda phob math o alwedigaethau yn gwasanaethu anghenion y trigolion. Amaethyddiaeth oedd asgwrn cefn y gymdeithas. Daeth tro ar fyd wrth i beiriannau newid y dull o ffermio'n grwn. Daeth cryn newid i'r plwyf ers 70au'r ugeinfed ganrif, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Caewyd y siop, y post a'r ysgol ond gwelwyd agor parc chwarae i'r plant.

Mewn llecyn ac iddo hanes mor nodedig â golygfeydd gyda'r gorau, ein braint yw cael byw yma a'n cyfrifoldeb yw trosglwyddo'r traddodiadau a'r diwylliant ymlaen i'r genhedlaeth nesaf.

Llangolman

Mae pentref Llangolman wedi ei leoli tua thair milltir i'r de-orllewin o Fynachlog-ddu yn ôl fel yr hed y frân. Oddi tano mae'r Cleddau Ddu yn dechrau lledu ei glannau. Ar un adeg roedd nifer o gwarrau yn yr ardal ac mae llechi lleol wedi eu gosod ar doeon T'r Cyffredin a'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac yn ôl rhai fe allforiwyd llwyth o lechi'r ardal i Dde Affrica. Erbyn heddiw mae'r cwarrau - 13 i gyd - wedi hen gau. Mae hen felin flawd Pont Hywel bellach wedi ei haddasu yn weithdy ar gyfer cynhyrchu amrywiaeth o gofroddion o lechi.

Llandeilo

Daw'r enw Llandeilo o'r eglwys a gysegrwyd i Sant Teilo, un o seintiau mwyaf amlwg hen hanes Prydain yn rhan olaf y bumed

ganrif a dechrau'r chweched ganrif. Mae'n ardal fryniog ar lethrau mynyddoedd y Preselau. Dim ond rhan o'r tir sydd wedi ei gau a'i amaethu; mae'r pridd yn amrywiol gyda rhai rhannau yn ffrwythlon ac eraill yn llwm.

Er taw amaethyddiaeth yw prif ddiwydiant yr ardal, cafwyd nifer o chwareli llechi. Mae digonedd o lechi o safon dda yn y gymuned a cheir canmoliaeth uchel i safon y llechi ar gyfer toi. Mae cyfanswm o dair chwarel ar ddeg yn yr ardal yn cynnwys Cwarre Gilfach, Cwarre Cnwc, Cwarre Llandeilo a Chwarre Glas, a llawer o weithfeydd llai. Fe'u ceir ar hyd llinell folcanig sy'n ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin drwy ganol yr ardal.

Prin y gellir disgrifio Llandeilo fel pentref am nad oes yna res o dai yn unman. Hwyrach mai Capel yr Annibynwyr yw canolbwynt y ffermydd a'r bythynnod gwasgaredig. Dywed traddodiad fod penglog Sant Teilo wedi cael ei gadw yn ffermdy Llandeilo Isaf am flynyddoedd a hynny yn nrôr ford yr ystafell orau. Dywedir fod Ffynnon Teilo gerllaw yn meddu ar bwerau iachusol yn arbennig os defnyddid y benglog fel llestr i yfed ei dŵr. Mae bwthyn to gwellt Pen-rhos yn un o hynodion yr ardal a bellach yn amgueddfa yn tystio i ffordd o fyw 'slawer dydd. Fe'i codwyd fel t unnos yn wreiddiol.

CYNLLUN GWEITHREDU

1 – Adnoddau Cymunedol

Sylwadau

Diffyg man cyfarfod hwylus, adnoddau siopa a gwella'r adnoddau cyfredol oedd y prif anghenion a nodwyd gan y gymuned yng Nghynllun Gweithredu 2003. Yn dilyn llawer o waith caled, cafodd Festri Bethel ei ailagor ar ôl ailwampio yn llwyr yn 2005 ac erbyn hyn mae'n darparu man cyfarfod cyfoes a chyffyrddus.

Mae yna draddodiad hir o ddigwyddiadau a gwyliau yn cael eu trefnu o fewn y gymuned. Yn y gorffennol cynhaliwyd Ffair Bentref rheolaidd, treialon cŵn defaid, Boreau Coffi, a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi arbennig. Tra bod y trigolion yn parhau i fwynhau trefnu gwyliau a digwyddiadau does yna'r un adeilad addas ar gael at y pwrpas. Festri Bethel yw'r prif adeilad lle mae'r mwyafrif o'r clybiau, cymdeithasau a'r trigolion yn cynnal cyfarfodydd cymunedol, gweithdai, gwyliau a digwyddiadau. Er enghraifft mae

Cyngor Cymuned Mynachlog-ddu, Merched y Wawr, Ff.W Y., Clwb Cinio ac Ysgol Sul Capel Bethel yn defnyddio'r Festri yn rheolaidd, ac yno mae'r Bwth Pleidleisio ar adeg etholiadau lleol hefyd. Mae'r gegin yn cael ei defnyddio i baratoi a gweini lluniaeth yn ystod cyngherddau a chymanfaoedd canu, angladdau, partïon Nadolig, partïon pen-blwydd a digwyddiadau eraill yn y pentref. Mae'r Festri yn Adeilad Cofrestredig o dan CADW

Cynigion
Cyfredol:

- **Byrddau hysbysebu dwyieithog** – mae angen y rhain ymhob un o'r pentrefi er mwyn cynyddu'r sylw a'r cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau lleol.
- **Maes Parcio Capel Bethel** – defnyddir y maes parcio pan fydd cyfarfodydd, priodasau, cyngherddau a gwyliau, angladdau a phartïon yn cael eu cynnal ac mae angen ei uwchraddio. Byddai hyn yn golygu gwaredu helyg a phrysgoed, dreinio dŵr ar yr wyneb, gosod craidd caled ar yr wyneb ac yna ei ail-hadu â phorfa. Hefyd, awgrymir gosod ffens o amgylch y maes a gosod mynedfeydd priodol i'r maes parcio gyda arwydd dwyieithog '*Maes Parcio BETHEL Parking Ground*'.
- **Gardd Goffa Llangolman** – yn cael ei sefydlu ar y cilcyn glas i gynnal y garreg goffa o'r Neuadd Goffa, ynghyd â mainc a phlannu blodau / llwyni.

I'w cwblhau:

- **Capel Bethel** - mae angen gwelliannau cyffredinol a thrwsio'r capel y tu fewn a thu fas, gan gynnwys creu mynediad i'r anabl, ail-wifro'r trydan, gwella'r lloriau a'r gwres, allanfa dân, gwell ffenestri, ac mae angen gwneud gwaith ar y to. Mae'n rhaid cael hysbysfwrdd newydd a mwy o faint wrth glwyd y capel er mwyn hysbysebu newyddion y capel a digwyddiadau.
- **Eglwys Sant Dogfael Mynachlog-ddu** - angen addurno'r eglwys, system gwresogi newydd a gwelliannau i'r to.
- **Capel Llandeilo a'r Festri** - mae angen atgyweirio'r capel a'r festri - mae angen gwaith cynnal a chadw ar y to a'r bargodion, a rhaid gwella cyflwr y toiledau sydd yno ar hyn o bryd. Mae'r maes parcio presennol braidd yn annigonol ac fe ellid ei gymhennu i greu lle parcio ychwanegol ac i hyrwyddo'r ardal. Caiff y capel a'r festri eu defnyddio gan amrywiaeth o glybiau a chymdeithasau e.e. Ysgol Sul, cyfarfodydd, paratoi lluniaeth, ac ati.
- **Gwefan Cymunedol** – i'w ddatblygu ar gyfer y gymuned.
- **System Garthffosiaeth Integredig** – mae dirfawr angen hyn ym Mynachlog-ddu.

- **Cynllun Gwarchod Bro** – fe awgrymir y dylid cyflwyno Cynllun Gwarchod Bro i'r gymuned.
- **Cyfleusterau Hamdden a Mwyniant** – y Parc Chwarae ym Mynachlog-ddu yw un o'r prif fangreoedd o ran cyfleusterau hamdden yn y gymuned. Ymhlith y syniadau o ran hamdden a mwyniant sydd wedi eu cynnig mae cae pêl-droed, parc sglefr-fyrddio, cwrt tenis, maes pêl-fasged, llwybr beicio mynydd, trefnu tripiau pysgota, grwpiau chwarae o dan arolygiaeth, Clwb Ieuenctid i blant hŷn, cyfleusterau ffitrwydd / ymarfer, siopau cyfnewid fideos, DVD a gemau cyfrifiadurol, sinema deithiol a chaffi seiber.
- **Toiledau** - angen toiled gyda mynediad i'r anabl ger Meysydd Chwarae Mynachlog-ddu a bwriadir cael ystafell cyfarfod ar y safle.

Cynnig Newydd (2007):

- **Mynediad i wasanaeth Band Llydan i bawb sy'n byw yn lleol** yn enwedig ym Mynachlog-ddu

2 – Etifeddiaeth a Diwylliant

Sylwadau

Mae yna ymdeimlad cryf a balch o werth etifeddiaeth a diwylliant yn yr ardal. Mae'r gymuned yn trefnu gwyliau i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o'i hanes lleol ond mae o'r farn y gellid gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth o'r hanes lleol oesol. Fe fu'r ardal yn dyst i Derfysg y Beca ac mae'n nodedig am ei beirdd. Mae yna restr o bobl leol dalentog sydd â chysylltiadau cryf â'r gymuned. Ymhlith y rhain mae Waldo Williams, Twm Carnabwth, E. T Lewis, W R Evans, Ben Owens, R Parri-Roberts a Tonwen Adams.

Ymhlith y capeli a'r eglwysi yn y gymuned mae Capel Bethel (Bedyddwyr) ym Mynachlog-ddu, Eglwys Sant Dogfael ym Mynachlog-ddu, Eglwys Sant Colman yn Llangolman, a Chapel Llandeilo (Annibynwyr).

Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig o fewn y gymuned ond fe dderbynnir bod angen annog mwy o ddefnydd helaethach ohoni o fewn yr ardal – un dull o sicrhau hyn fyddai i'r trigolion lleol fynd ati i drefnu dosbarthiadau neu gyrsiau i alluogi pobl i ddysgu'r iaith.

Cynigion

Cyfredol

- **Datblygu llwybrau etifeddiaeth gymunedol** – wedi eu llunio ar sail themâu penodol megis Waldo Williams, Terfysg Beca ac ati. Cynigir y dylai trigolion lleol gyfarfod i drafod y syniad yng

nghwmni arbenigwyr e.e. Wyn Owens (bardd cenedlaethol)

I'w cwblhau:

- **Ymchwilio i gyfleoedd sefydlu amgueddfa yn yr ardal** - fe gynigir rhoi cefnogaeth i'r bwriad o glustnodi cyfleoedd hyrwyddo etifeddiaeth yn ardal Maenclochog. Gallai **amgueddfa fferm** fod yn bosibilrwydd i arddangos a dangos hen beiriannau ac offer, arddangosfeydd o sgiliau amaethyddol traddodiadol e.e. cneifio defaid, godro â llaw ac yn y blaen.
- **Diwydiant llechi** – ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau canolfan i ddangos hen draddodiadau yn ymwneud â diwydiant llechi.
- **Arddangosfeydd** – mae'r gymuned wedi nodi'r angen i sefydlu safleoedd /adeiladau i gynnal arddangosfeydd parhaol a gwyliau.
- **Trefnu cyrsiau dysgu Cymraeg –** er mwyn sicrhau dyfodol yr iaith yn lleol. Gallai cyrsiau ddysgu pobl am enwau lleoedd lleol, dywediadau ac ati.
- **Pwll Bedyddio Capel Bethel** - mae'r pwll bedyddio yn agos iawn i'r fan lle bwriedir datblygu Ardal Goffa ond mae gwir angen ei drwsio a'i adnewyddu. Byddai hwn yn atyniad hyfryd ac yn ffurfio rhan bwysig o ddeunydd deongliadol y gymuned. Byddai panel dehongli dwyieithog yn hysbysu ymwelwyr o'i bwysigrwydd.

Cynigion Newydd (2007):

- **Llyfr hanes ardal Mynachlog-ddu / Llangolman / Llandeilo** (llyfr swmpus fel yr un a chyhoeddwyd yn ddiweddar ar Faenclochog)
- **Sefydlu 'dosbarth' Cymraeg -** i ddod â phobl ddi-gymraeg a Chymry at ei gilydd er mwyn cymdeithasu a dysgu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol
- **Codi arwyddion i Eglwys Sant Dogfael a Chylch Cerrig Gors Fawr.** Yr adeilad cyfan hynaf ym Mynachlog-ddu sy'n parhau i gael ei ddefnyddio yw Eglwys Sant Dogfael.

3 – Economi Lleol

Sylwadau

Mae busnesau cyfredol o fewn y gymuned yn cynnwys Clwb Gwledig a Pharc Carafannau Trefach, llety gwyliau a busnes crochenwaith yn Nhrallwyn, sawl contractwr amaethyddol, busnes cludo, canolfan geffylau yn Llangolman, Gweithdy Llechi yn Llangolman, modurdy, a chanolfan arddio. Mae yma hefyd lety

cathod, Moher Preseli, Robert Preedy, plymwr, Euros Griffiths, adeiladydd a Gordon Watson, peiriannydd trydan. Amaethyddiaeth a busnesau cysylltiedig eraill yw prif ddiwydiant yr ardal o hyd.

Adnabyddir yr ardal am eu tirwedd gyfoethog a'i leoliad tawel gan ymwelwyr. Mae'r cymunedau yma yn rhai lle mae pobl yn byw ac yn gweithio yn y cefn gwlad ac ystyrir bod yna cyfle i ddangos ymwelwyr y cyfoeth o gynnyrch lleol sydd ar gael, ac felly darpar i farchnadoedd mwy eang. Mae yna deimlad cryf bod rhaid cael cydbwysedd rhwng deillio buddion o'r ymwelwyr a chadw rhinweddau unigryw'r ardal.

Cynigion
Cyfredol:

- **Amaethyddiaeth** – mae angen cefnogaeth a chyngor proffesiynol ar y diwydiant er mwyn datblygu cyfleoedd gwell ac arall gyfeirio yn y dyfodol.
- **Cylch Peiriannau** – mae yna Gylch Peiriannau yn yr ardal ond mae angen mwy o gyhoeddusrwydd i hysbysu trigolion lleol o'i fodolaeth.
- **Adnoddau Etifeddiaeth** - byddai datblygu llwybrau etifeddiaeth a dehongli o gymorth i ddatblygu twristiaeth yn yr ardal.

I'w cwblhau:

- **Adnoddau Naturiol –** medrai'r ardal greu gwell incwm o weithgareddau wedi eu seilio ar yr adnoddau naturiol sydd ar gael o fewn y gymuned e.e. seiclo, cerdded a marchogaeth – rhaid tynnu sylw at y gweithgareddau a'r profiadau hyn o fewn y gymuned, trwy well hysbysebu a marchnata.
- **Creu rhagor o gyflogaeth yn y gymuned** – trwy blannu coed mewn ardaloedd glas, diogelu'r amgylchedd, clirio a chynnal llwybrau troed / ceffylau, creu mwy o ddiddordeb yn yr amgylchedd lleol o ran denu twristiaeth e.e. hysbysebu i ddenu cerddwyr, seiclwyr, marchogion ceffylau, gwylwyr adar, artistiaid, ffotograffwyr.
- **Adnoddau ynni amgen** e.e. twrbein dŵr yn Afon Cleddau, twrbein gwynt
- **Fferyllydd, siopau lleol, swyddfa bost**
- **Hostel leuenctid a llety rhatach**
- **Gwyliau addysgiadol arbenigol** e.e. crefftau
- **Hurio beiciau**
- **Hyrwyddo teithiau cerdded gan dywysydd**
- **Ffair Grefftau a Chynnyrch Lleol**

Cynigion newydd (2007):

- **Llwybr Waldo i ddenu ymwelwyr diwylliannol**
- **Datblygu sgiliau adeiladu mewn ffyrdd cyfredol a thraddodiadol**
- **Creu swyddi 'da'**
- **Cefnogi ffermydd lleol i deuluoedd**
- **Defnyddio cynnyrch lleol**

4 – Amgylchedd

Sylwadau:

Mae tawelwch yr amgylchedd gwledig yn cael ei ystyried fel cryfder lleol sydd heb newid dros yr oesoedd. Mae'r tyddynnod ger y bryniau a geir eu croestorri gan lwybrau yn rhan gyfannol i awyrgylch yr ardal. Gyda hyn mae yna ysbryd cymunedol ac ymwybyddiaeth o gymunedau cynt gyda thystiolaeth fel y cylchau cerrig. Dathlwyd yr ansawdd unigryw yma gan nifer o ysgrifenwyr a beirdd, sydd hefyd yn rhan o draddodiad yr ardal.

Cynigion
Cyfredol:

- **Hysbysfyrddau Cymunedol** – mae angen y rhain ymhob un o'r tri phentref er mwyn hysbysu ymwelwyr o'r hyn sydd i'w gael yn yr ardal ac fe ellid codi un ger y fynedfa i'r maes parcio.
- **Ardal Goffa Mynachlog-ddu** – gwella'r tir gyferbyn i Faes Parcio Bethel, sydd ym mherchnogaeth y Capel, ar gyfer defnydd cymunedol. Fe awgrymwyd gosod Ffwrwm Goffa yno i gofio am Tonwen Adams ac E T Lewis. Byddai'n fan tawel a heddychlon odiaeth ar gyfer ymlacio, yn arbennig ar gyfer aelodau hyn y gymuned.
- **Cilcyn Glas ar gyfer Llangolman –** ystyried y posibiliadau o ddarparu ardaloedd glas pentrefol ger y cilcyn glas presennol wrth y garej ac wrth y Neuadd Goffa.
- **Adnoddau ailgylchu** – codi ymwybyddiaeth o ailgylchu a materion gwyrdd eraill ledled y gymuned, ac fe awgrymir gosod adnoddau ailgylchu mewn gwahanol fannau.
- **Llwybrau Troed a Rhodfeydd** - mae clirio, marcio a gosod arwyddion yn angenrheidiol er mwyn cynnal a hysbysebu llwybrau troed lleol, rhodfeydd a llwybrau marchogaeth. Cysyllter â'r Parc Cenedlaethol am gyngor a chymorth, a rhaid trafod gyda'r ffermwyr a thirfeddianwyr lleol gydol y broses. Dylid darparu gwybodaeth ynglŷn â'r côd cefn gwlad i ymwelwyr fel bod hwy yn ymwybodol o'u cyfrifioldebau a bod yr ardal yn un weithiol.
- **Cynlluniau Hyrwyddo Pentref** – byddai pob un o'r pentrefi yn

elwa o gael cynllun hyrwyddo yn darparu ardaloedd glas, planhigion, llwyni ac yn y blaen. Mae angen ardaloedd Hamdden, Seddi a Ffwrwmau ledled y cymunedau. Awgrymir cyflwyno cynlluniau plannu coed ymhob un o'r pentrefi. Cafodd ei awgrymu hefyd y dylid cynnal a chadw nifer o gloddiau gyda'u hamrywiaeth o rywogaethau gwerthfawr.

I'w cwblhau:

- **Ardaloedd Parcio, Arhosfannau a Biniau Sbwriel** - fe awgrymir creu rhagor o fannau parcio pwrpasol i alluogi ymwelwyr barcio eu ceir tra byddan nhw'n cerdded / seiclo ar hyd y wlad o gwmpas. Man hynod o boblogaidd lle fyddai hyn o fudd i ymwelwyr a phobl leol fyddai gyferbyn i Glanrhyd Fach (ger Cerrig Caermeini) ym Mynachlog-ddu - byddai'r math yma o ddatblygiad ymhob un o'r tri phentref yn rheoli parcio ac yn atal cerbydau rhag bod yn rhwystr ar y ffordd fawr. Fe awgrymir hefyd y dylid darparu biniau sbwriel ymhob un o'r safleoedd parcio hyn.
- **Arwyddion** – mae'r arwyddion cyfredol ar hyd y tri phentref mewn cyflwr gwael ac fe awgrymir gwella'r holl arwyddion trwy'r gymuned, yn arbennig y rhai sy'n cyfeirio ymwelwyr i lefydd megis Carreg Waldo, meini hirion Gors Fawr a mynwent Bethel.
- **Ardal Chwarae i Blant yn Llangolman** - yn y pentref clustnodwyd ardal ar gyfer datblygu llithren a siglenni.
- **Tir comin yn Rhosfach, ger Llangolman** - Mae'r darn yma o dir ar hyn o bryd wedi ei orchuddio gan ganclwm Siapan a chwyn, ac felly fe fydd gwaith clirio a chymhennu yn angenrheidiol, ond rhaid wrth ymchwil amgylcheddol a chyngor arbenigol cyn dechrau unrhyw ddatblygiad. Gallai'r datblygiad hwn gynnwys ardal bicnic / ymlacio, a'i ymestyn i gynnwys llwybrau coedwig, yn ogystal â chreu ardal fechan i alluogi ymwelwyr i barcio eu cerbydau.

Cynnig Newydd (2007):

- **Datblygu rhwydwaith o lwybrau troed a llwybrau ceffylau**

5 - Cludiant a Phriffyrdd

Sylwadau:

Ystyrir cyflwr wynebau ffyrdd ledled y gymuned yn gyffredinol wantan a byddai'r preswylwyr yn dymuno eu gweld yn cael eu gwella. Mae angen sylw penodol ar rai ffyrdd er mwyn ei gwneud yn haws i deithio o safbwynt gweledededd ar droeon a materion diogelwch.

Cynigion
Cyfredol:

- **Rheoli gordyfiant coed ar y ffyrdd** – rhaid cadw canghennau sy'n ymestyn dros y ffyrdd, a'r cloddiau ar hyd y ffordd gyhoeddus, o dan well rheolaeth. Mae angen sylw brys ar y ffordd sy'n dirwyn rhwng Mynachlog-ddu a Sgwâr Glandy. Byddai preswylwyr a thrigolion lleol yn elwa pe gwneid hyn, yn ogystal ag ymwelwyr i'r gymuned a lorïau sy'n mynd i Barc Carafannau Trefach.
- **Cludiant Cyhoeddus** – rhaid gwneud rhai gwelliannau i'r Gwasanaeth Bws cyfredol, gan gynnwys codi teithwyr ac aros mewn mannau gwahanol, a gwasanaeth amlach.
- **Goleuadau Stryd -** gwella'r ddarpariaeth bresennol o ran goleuadau stryd trwy'r gymdogaeth gan atal llygredd golau. Mannau penodol y dylid rhoi sylw iddynt yw Parc Chwarae Mynachlog-ddu, yr Hen Swyddfa Bost, tu fas i Gapel Bethel ac ar y ffordd sy'n dirwyn o Ben-y-bont i Sgwâr Glandy.

I'w cwblhau:

- **Cheir Gwledig** – Mae angen datblygu'r cynllun Ceir Gwledig o fewn y gymuned. Mae ieuenctid am fynd i'r sinema yng Nghrymych, preswylwyr am fynd at y meddyg ac i siopa i'r trefydd cyfagos. Awgrymwyd hefyd y posibilrwydd o sefydlu gwasanaeth cerbyd ysbyty.
- **Diogelwch Ffyrdd** - y mae angen palmentydd ger Parc Chwarae Mynachlog-ddu (o bont i bont). Yr un modd yn Llangolman rhwng y Tai Cyngor a'r Swyddfa Bost.
- **Terfynau Cyflymder** – mae cyflymder trafnidiaeth trwy'r pentrefi ac ar y ffyrdd amgylchynol yn fater o gonsýrn i'r preswylwyr, ac fe awgrymir gosod terfyn cyflymder o 30mya. Awgrymir gosod atalfeydd cyflymder yng nghyffiniau Perci Chwarae Mynachlog-ddu.
- **Wyneb y Ffyrdd -** ystyrir y rhain yn gyffredinol wantan eu cyflwr ymhob un o'r pentrefi. Anaml y caiff y ffordd rhwng Mynachlog-ddu a Sgwâr Glandy ei tharmacio/graeanu.

Cynnig Newydd (2007):

- **Gorfodi'r terfyn cyflymdra 30 m.y.a. ym Mynachlog-ddu**

6 – Tai

Sylwadau:

Tai i deuluoedd, grwpiau cydweithredol ar gyfer hunan-adeiladu a thai cychwynnol yw prif ofynion y gymuned.

Cynigion
I'w cwblhau:

- **Tai i deuluoedd, cydweithredol ar gyfer hunan-adeiladu a thai cychwynnol**

Cynigion Newydd (2007):

- **Tai fforddiadwy** ar gyfer pobl ifanc
- **Gwahodd y Galluogydd Tai Gwledig i gynnal arolwg o anghenion tai lleol**
- Hybu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy yn adeiladau lleol newydd